**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**10 RHAGFYR 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd drwy fynychu o bell ddydd Iau, 10 Rhagfyr 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Sean Bibby, Geoff Collett, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Richard Jones, Kevin Rush, Paul Shotton, Andy Williams ac Arnold Woolley

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg), y Cynghorydd Carolyn Thomas (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad), y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau), y Cynghorydd Glyn Banks (Aelod Cabinet Cyllid), Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Rheolwr Cyllid Strategol a Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid.

Ar gyfer cofnod rhif 43
Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, Rheolwr Gweinyddu Pensiynau a Chyfrifydd Cronfa Bensiynau

**HEFYD YN BRESENNOL:** Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Swyddog Gwasanaethau Aelodau a Dinesig a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 35. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 36. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2020, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Shotton a Dunbobbin. Cytunwyd y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am grantiau cymorth i fusnesau yn cael ei hanfon at y Pwyllgor.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2020, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Dunbobbin a Rush.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

## 37. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad yn nodi cynnydd ar bwyntiau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

**38. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd efallai y byddai'n rhaid symud Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i gyfarfod mis Chwefror ac y gallai gael ei ddisodli gan Adroddiad Blynyddol y Gronfa Waddol Gymunedol. Eglurodd y byddai sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw (mis 8) yn cael ei thrafod yn ystod y cyfarfod nesaf ac y byddai'r Briffiadau ynghylch yr Argyfwng yn cael eu disodli gan e-byst briffio wythnosol i Aelodau o fis Ionawr ymlaen.

Dywedodd y Cynghorydd Jones fe ddylai fod yna fwy o ffocws ar aliniad Cynllun y Cyngor gyda'r portffolios. Dywedodd hefyd y dylid rhoi mwy o ffocws ar faterion eraill o werth ariannol mawr o fewn y gyllideb. Dywedwyd wrtho y byddai'r ymgynghoriad ar gynnwys a fformat Cynllun y Cyngor yn dechrau'n fuan yn y Flwyddyn Newydd.

Mewn ymateb i bryderon y Cynghorydd Jones ynglŷn â'r angen i ystyried strategaethau ariannol yn gynnar a chanolbwyntio ar faterion lle'r oedd gan y Cyngor reolaeth, dywedodd y Prif Weithredwr bod adroddiad y Cabinet ar strategaeth gloi'r gyllideb wedi cael ei rannu ac y byddai'r sesiwn friffio i'r Aelodau ar y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar 23 Rhagfyr yn rhoi cyfle i adolygu'r sefyllfa a rheoli risg ariannol yn y dyfodol.

Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**39. BRIFFIO YNGHYLCH YR ARGYFWNG (AR LAFAR)**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar lafar ar y sefyllfa bresennol yn cynnwys ystadegau lleol a rhanbarthol a'r ymatebion i'r argyfwng. Ymatebodd i gwestiynau am y rhaglen frechu a statws yr ysbytai brys. Cyflwynodd y Cynghorydd Roberts y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa mewn ysgolion. Adroddodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol ar y broses recriwtio i gynyddu capasiti yn y gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y diweddariad ar lafar.

## 40. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH ADFER

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am Gofrestr Risg y Portffolio Corfforaethol a mesurau lliniaru yn rhan o gynllunio adferiad. Gan fod llawer o'r risgiau tymor byr wedi dod i ben, roedd y ffocws ar y risgiau ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir gyda nifer o risgiau ariannol yn debygol o aros yn agored am beth amser.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol ac Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol drosolwg o'r prif newidiadau a'r materion presennol am risg ac adferiad o fewn eu portffolios perthnasol.

Talodd y Cynghorydd Shotton deyrnged i'r gweithlu am eu gwaith yn ystod y pandemig.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r diweddariad nesaf ar y Strategaeth Adfer yn cael ei adrodd ym mis Chwefror, ac y byddai unrhyw fater sylweddol yn ymwneud â Chyllid yn rhan o'r adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw ym mis Ionawr.

Awgrymodd y Cynghorydd Jones y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar faterion presennol megis ôl-ddyledion rhent, lefelau casglu Treth y Cyngor a chludiant ysgol a fyddai'n effeithio'r gyllideb. Dywedodd y Prif Weithredwr, yn ogystal â'r eitem ar y rhaglen hon, byddai adroddiad y gyllideb ym mis Ionawr yn adlewyrchu unrhyw newid i amcanestyniadau cyn cyfarfod y Cyngor Sir ym mis Chwefror.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Shotton a Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gofrestr risg ddiweddaraf a chamau lliniaru risg o fewn y portffolios corfforaethol.

## 41. PROSES DDATBLYGU CYNLLUN Y CYNGOR 2021/22

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar ddatblygiad Cynllun arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2021/22 gan ganolbwyntio ar bortffolios perthnasol y Pwyllgor.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, cafodd y blaenoriaethau strategol brys ar gyfer adfer y portffolios eu tynnu o Gynllun Drafft y Cyngor ar gyfer 2020/21 a'u mabwysiadu yn ystod ail hanner 2020/21. Byddai Cynllun y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn parhau i ystyried adferiad a byddai yn cael ei adeiladu o amgylch chwe thema a awgrymwyd gan y Cabinet:

- Economi
- Addysg a Sgiliau
- Yr Amgylchedd
- Tai

- Lles Personol a Chymunedol
- Tlodi

Roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn adlewyrchu gwaith allweddol ar y meysydd hyn. Roedd yr ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi'i drefnu ar gyfer y Flwyddyn Newydd gan arwain at fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Ebrill / Mai 2021. Mewn ymateb i bwynt cynharach y Cynghorydd Jones, er bod aliniad clir gyda Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y pum thema cyntaf, roedd meysydd o dan y thema Tlodi yn ehangach ac yn ymestyn ar draws bortffolios.

Cydnabu'r pwynt hwn gan y Cynghorydd Roberts a siaradodd am yr angen i gadw themâu sy'n trawstorri, megis Tlodi a Lles, yn ogystal â blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn megis y 'Cyngor Gwyrdd' a oedd angen golwg ar draws y Cyngor.

Cytunodd y Cynghorydd Thomas a rhoddodd enghreifftiau o gyd-weithio ar draws feysydd gwasanaeth. Cyfeiriodd hefyd at gyfle'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i ddylanwadu ar eu rhaglenni gwaith i'r dyfodol.

Wrth gydnabod nifer y materion sy'n trawstorri, pwysleisiodd y Cynghorydd Jones ei sylwadau am aliniad Cynllun y Cyngor gyda'r portffolios a bod y themâu yn haws i'w deall a'u dilyn pan yr oeddent wedi alinio â swyddog arweiniol a phwyllgor penodol.

Croesawodd y Cynghorydd Shotton y meysydd blaenoriaeth i fynd i'r afael â thlodi a oedd yn ymestyn ar draws gylch gwaith yr holl bwyllgorau.

Siaradodd y Cynghorydd Heesom o blaid sylwadau'r Cynghorydd Jones a pha mor bwysig yr oedd i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ganolbwyntio ar faterion allweddol.

Yn dilyn y drafodaeth, cefnogodd y Pwyllgor awgrym y Prif Weithredwr, sef y dylai'r thema Tlodi aros yn agored hyd nes ystyried yr eitem y tro nesaf er mwyn i Aelodau allu ystyried pa bwyllgor Trosolwg a Chraffu oedd fwyaf addas ar gyfer y thema hon.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorwyr Jones a Heesom.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r broses a'r amserlen ar gyfer adolygu Cynllun y Cyngor i'w ail-fabwysiadu ar gyfer 2021/22.

## 42. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2020/21 (MIS 7)

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol gyflwyniad ar lwyddiant y Cyngor wrth wneud hawliadau i Lywodraeth Cymru am gyllid Grant Argyfwng a sut y cysonwyd yr hawliadau hyn yn erbyn y gronfa argyfwng wrth gefn o £3m a neilltuwyd ar ddechrau'r argyfwng. Roedd y cyflwyniad yn trafod:

- Cyhoeddiadau Cyllid Cenedlaethol
- Hawliadau'r Gronfa Galedi
- Hawliadau Colled Incwm
- Cronfa Hapddigwyddiad Gymeradwy o £3m

Cydnabu'r cyflwyniad lwyddiant cydweithio rhwng Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru ers dechrau'r sefyllfa argyfwng. Nodwyd y byddai balans y Gronfa Hapddigwyddiad gymeradwy yn £2.616m pe bai pob hawliad yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr. Roedd yr elfennau colled incwm, a oedd yn aros am gymeradwyaeth, wedi cael eu hystyried yn y rhagamcanion monitro cyllideb a byddent yn arwain at symudiad cadarnhaol pe baent yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r cyflwyniad yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw fel yr oedd ym Mis 7 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn i'r Cabinet ei ystyried. Roedd hyn yn adlewyrchu sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol petai pethau'n parhau heb eu newid gan ystyried y sefyllfa ddiweddaraf o ran cyhoeddiadau Cyllid Grant Argyfwng Llywodraeth Cymru.

Roedd y diffyg gweithredol o £0.196m yn gadarnhaol o'i gymharu â'r £0.373m yn y mis blaenorol a byddai'n gadael balans disgwyliedig o £1.415m Gronfa Hapddigwyddiad. Roedd yr adolygiad o wariant dianghenraid wedi helpu i leihau'r sefyllfa gyffredinol o £0.700m hyd yma drwy oedi gwariant a chadw swyddi gwag.

Ymysg yr amrywiadau sylweddol oedd £0.345m o gostau ychwanegol ar gyfer Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir, a sefyllfa well o £0.148m ar gyfer Gwasanaethau Stryd a Chludiant a £0.270m ar gyfer Llywodraethu, fel y nodir yn yr adroddiad. Roedd risgiau newydd megis y cynnydd i'r galw am brydau ysgol am ddim yn cael eu monitro'n agos.

Amcangyfrifwyd y byddai 96% o arbedion effeithlonrwydd wedi'u cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.

Roedd y balans diwedd blwyddyn a ragamcanwyd o Gronfeydd Hapddigwyddiad yn £1.415m, gan dybio y byddai'r gorwariant o £0.196m yn cael ei dalu gan y swm oedd ar gael yn y gronfa wedi'i glustnodi at argyfwng o £3m, a fyddai'n gadael swm o £2.446m.

Yn y Cyfrif Refeniw Tai, roedd tanwariant arfaethedig o £0.460m yn gadael balans terfynol heb ei neilltuo yn £2.469m, a oedd yn uwch na'r canllawiau argymelledig ar wariant.

Diolchodd y Cynghorydd Banks i'r swyddogion am yr adroddiad a'u llwyddiannau gyda chael cyllid grant.

Diolchodd y Cynghorydd Heesom i'r swyddogion am y cyflwyniad gwell o amrywiadau. Mewn ymateb i gwestiynau, adroddodd y Prif Weithredwr ganlyniad cadarnhaol ar drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar ad-dalu colledion incwm

meysydd parcio yn ystod Chwarter 2. Siaradodd hefyd am yr heriau o ran adfer marchnadoedd yn ystod y sefyllfa argyfwng oherwydd pryderon diogelwch.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones am eglurhad ar y gostyngiad yn y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer Cyllid Corfforaethol a Chanolog a byddai swyddogion yn darparu ymateb ar wahân. Galwodd am barhau ag atal ffioedd meysydd parcio i gynorthwyo canol trefi. Mewn ymateb i gwestiynau, darparodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol eglurder o ran effaith y dyfarniad cyflog i athrawon. O ran y Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor, gobeithiwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cefnogaeth ariannol ar gyfer y ddau chwarter sy'n weddill.

Siaradodd y Cynghorydd Thomas am ei phryderon ynghylch costau cynyddol cludiant a byddent yn parhau i gael eu monitro.

Yn dilyn awgrym gan y Prif Weithredwr, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad ym mis Ionawr ar y risgiau agored o'r cyfnod argyfwng a chysoni cyllid Grant Argyfwng, ynghyd â dadansoddiad o risgiau tymor hirach ar y gofrestr risg.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Shotton a Jones.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 Mis 7, bod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oedd yna faterion oedd angen eu codi gyda'r Cabinet y tro hwn.

## 43. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GRONFA BENSIYNAU CLWYD

Cyflwynodd Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd adroddiad ar Gronfa Bensiynau Clwyd a'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/20.

Cyflwynwyd y Pwyllgor i'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau a roddodd drosolwg o'r amrywiaeth o wasanaethau a oedd yn cael eu darparu gan y timau.

Siaradodd Cyfrifydd y Gronfa Bensiynau am y rhwymedigaethau statudol wrth gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ac fe aeth ymlaen i amlygu meysydd allweddol megis canlyniad y prisiad actiwaraidd teirblwydd ac effaith y sefyllfa argyfwng.

Fel aelod o Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, talodd y Cynghorydd Mullin deyrnged i'r gwaith a wnaed gan y tîm.

Rhoddwyd cyflwyniad ar drefniadau llywodraethu lleol a chenedlaethol y Gronfa yn cynnwys:

- Strwythur Llywodraethu Cronfa Bensiynau Clwyd
- Newidiadau Pwyllgor a Bwrdd
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cenedlaethol
- Polisïau a Strategaethau
- Amcanion

- Crynodeb o Chweched Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd Annibynnol
- Crynodeb o Chweched Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiynau
- Edrych i'r Dyfodol

Yn ystod y cyflwyniad, eglurodd Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd y goblygiadau o Argymhellion Llywodraethu Da i'w cyflwyno o flwyddyn nesaf.

Siaradodd y Prif Weithredwr am gymhlethdod y Gronfa a'i threfniadau llywodraethu cadarn. Diolchodd i'r swyddogion, yn enwedig i'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau a'i thîm am y gwelliannau a oedd wedi cael eu gwneud yn y maes hwnnw.

Diolchodd y Cynghorydd Jones i'r tîm am eu cyflwyniad. Cynigodd yr argymhellion ac fe gefnogwyd y rheini gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ar ôl ystyried Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiynau Clwyd ar gyfer 2019/20, nad oedd gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau penodol i'w gwneud; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oedd meysydd penodol o bryder a oedd angen mwy o wybodaeth yn y diweddariad nesaf.

## 44. LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR GYFER 2019-20 A CHWYNION YN ERBYN CYNGOR SIR Y FFLINT 2020-21

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid adroddiad i rannu Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019-20. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys trosolwg o'r cwynion yn erbyn gwasanaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill i 30 Medi 2020.

Er bod cynnydd wedi bod yn nifer y cwynion a wnaed yn erbyn y Cyngor yn 2019/20, roedd canran uchel ohonynt yn gynamserol (gan nad oedd y weithdrefn gwyno wedi cael ei dilyn hyd at ei diwedd), y tu allan i awdurdodaeth neu wedi cau ar ôl ystyriaeth ddechreuol gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Adroddwyd cynnydd da ar gwblhau amrywiaeth o weithredoedd i wella'r broses o ddelio â chwynion.

Ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2020 i fis Medi 2020, roedd gwasanaethau'r Cyngor wedi perfformio'n dda ac wedi llwyddo i ddatrys canran uchel o gwynion o fewn y terfynau amser er gwaetha'r argyfwng cenedlaethol, ac roedd nifer y cwynion ar ei uchaf ym mis Gorffennaf wrth i wasanaethau ail-ddechrau eto. Tynnwyd sylw'r Aelodau at waith blaenoriaeth a oedd yn cael ei wneud ar y rhaglen hyfforddi'r gweithlu a'r Polisi Cwynion newydd.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Jones, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid enghreifftiau o gwynion a gyfeiriwyd yn ôl gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a oedd yn geisiadau am

wasanaethau. Eglurodd fod yr argymhelliad ynglŷn â'r broses o ddelio â chwynion yn berthnasol i bob cyngor a bod hyfforddi'r gweithlu wedi'i anelu at wella ansawdd yr ymatebion er mwyn lleihau nifer yr atgyfeiriadau at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Roedd y nifer uchel o gwynion am wasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn adlewyrchu'r sefyllfa genedlaethol.

Siaradodd y Prif Weithredwr am y gwaith a wnaed gan y Gwasanaethau Stryd a Chludiant a Chynllunio i wella ansawdd yr ymatebion a therfynau amser.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gynnwys cwynion Rhentu Doeth Cymru wedi'u categoreiddio o dan Gyngor Caerdydd, a dechreuodd hyn drafodaeth ar wahaniaeth o ran ffigyrau oherwydd y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu drwy gyflenwyr allanol. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid i gynnwys y sylwadau fel rhan o'r adborth ar y Llythyr Blynyddol.

Talodd y Cynghorydd Mullin deyrnged i'r Rheolwr Gwasanaeth a'i thîm am eu gwaith.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Heesom, darparodd y Prif Weithredwr eglurder o ran gwasanaethau'r Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a dywedodd y byddai'r Polisi Cwynion yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor yn y Flwyddyn Newydd. Soniodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid am ei chyfranogiad mewn grŵp ymgynghori gydag Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i drafod newidiadau polisi.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cynghorydd Heesom, ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Bibby.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn:

(a) Nodi perfformiad blynyddol y Cyngor mewn perthynas â chwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2019-20) a chwynion lleol a wnaed yn erbyn gwasanaethau yn ystod hanner cyntaf 2020-21;

(b) Cefnogi'r gweithredoedd ym mharagraff 1.08 i wella'r broses o ddelio â chwynion ar draws y Cyngor; a

(c) Cefnogi'r gweithredoedd ym mharagraff 1.09 i adolygu polisi cwynion y Cyngor erbyn 31 Mawrth, 2021.

## 45. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 1pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**